**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**—**
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
**—**
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Dyfed Edwards
Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

7 Gorffennaf 2023

Annwyl Dyfed

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn ein cyfarfod cydamserol ar 25 Mai 2023, ystyriodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a fyddem am ymgymryd â gwaith mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) ac, os felly, sut.

Rydym wedi cytuno ar y nodau canlynol ar gyfer ein gwaith:

- Cydweithio lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.
- I waith craffu fod yn gymesur, gyda ffocws iddo ac wedi'i amseru'n briodol i ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu neu wrthdaro â phrosesau eraill sy'n mynd rhagddynt.
- Sicrhau cydbwysedd rhwng craffu cyfreithlon a chydnabod pan mae pethau'n gweithio'n dda.

Er mwyn gweithredu'r nodau hyn, rydym wedi cytuno i gynnal brîff gwylio gweithredol o ran y sefyllfa yn y Bwrdd Iechyd. Fel cam cyntaf, rydym wedi cytuno i ofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ategu'r wybodaeth a roddodd yn ei llythyr ar 10 Mai 2023, ac i ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth ynghylch y materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Pan fyddwn wedi cael y cyfle i ystyried y wybodaeth hon, byddwn yn ystyried a ydym am gynnal sesiynau tystiolaeth lafar a/neu ymweld â Gogledd Cymru i archwilio'r materion hyn ymhellach ac, os felly, pryd.

Byddem yn croesawu ymateb erbyn 18 Awst 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ar ôl i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ystyried y sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 25 Mai 2023 a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei llythyr ar 10 Mai 2023, byddem yn croesawu gwybodaeth am y materion isod, Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 18 Awst 2023.

1. Cadarnhad o statws y Cynllun Ymateb Sefydliadol i Fesurau Arbennig a gafodd y Bwrdd Iechyd ar 25 Mai 2023.

2. Beth yw'r prosesau adrodd a'r amserlen mewn perthynas â chynnydd yn erbyn y Cynllun hwnnw, gan gynnwys unrhyw adrodd yn erbyn y camau 90 diwrnod.

3. Cytundeb y bydd y Bwrdd yn sicrhau bod unrhyw adroddiadau cynnydd, gan gynnwys adroddiadau a ystyriwyd gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd ar gael i'r Pwyllgorau.